

Trosglwyddo Ffeiliau a Reolir

Mae Trosglwyddo Ffeiliau a Reolir (MFT) yn caniatáu i Ofcom rannu ffeiliau â sefydliadau allanol yn ddiogel. Mae'n darparu trywydd archwilio llawn o weithgarwch. Mae dau ddull o anfon a derbyn ffeiliau – ffolderi a rennir a Phecynnau. Bydd eich cyswllt yn Ofcom yn trefnu'r un mwyaf priodol at eich dibenion chi.

Pecynnau

Ar gyfer trosglwyddo ffeiliau unwaith ac am byth neu ddefnydd achlysurol, mae MFT yn darparu cyfleuster Pecyn diogel sy'n gweithio mewn ffordd debyg i negeseuon e-bost.

Does dim angen cyfrif arnoch chi ar MFT i gael mynediad at Becyn. Pan fydd rhywun o Ofcom yn anfon pecyn atoch, byddwch yn cael hysbysiad e-bost gan MFT gyda dolen i'r Pecyn.

Bydd eich cyswllt yn Ofcom yn rhoi cyfrinair i chi gael mynediad at y pecyn. Gallwch wedyn lawrlwytho unrhyw ffeiliau sydd wedi'u hatodi.

I anfon data gan ddefnyddio'r dull hwn, rhaid i rywun yn Ofcom anfon pecyn atoch chi yn gyntaf. Gallwch wedyn ateb - gan atodi unrhyw ffeiliau rydych chi am eu rhannu â'ch cyswllt yn Ofcom.

Ffeiliau a Rennir

Ar gyfer defnyddwyr sydd angen trosglwyddo ffeiliau i Ofcom, ac o Ofcom, yn rheolaidd, mae MFT yn darparu cyfleuster ffolder trosglwyddo diogel. Bydd eich cyswllt yn Ofcom yn gofyn am gyfrif MFT ar eich cyfer. Gofynnir iddynt roi eich enw, eich cyfeiriad e-bost ac enw'r cwmni.

Bydd enw defnyddiwr unigryw yn cael ei greu ar eich cyfer.

Ar ôl creu eich cyfrif, bydd eich cyswllt yn Ofcom yn rhoi gwybod i chi am eich cyfrinair dros dro ar wahân. Bydd gofyn i chi newid hyn pan fyddwch chi'n mewngofnodi i MFT am y tro cyntaf.

Ar ôl mewngofnodi, byddwch yn gallu mynd i'r ffolder a rennir i lanlwytho neu lawrlwytho ffeiliau fel y cytunwyd gyda'ch cyswllt yn Ofcom.

Taflen Ffeithiau Diogelwch

- Yn ystod y broses drafnidiaeth, mae MFT yn defnyddio TLS i amgryptio cyfathrebu. Cryfder lleiaf yr amgryptio a ddefnyddir wrth gludo ar y we yw 128-bit ac mae'r system yn cael prawf treiddiad rheolaidd.
- Mae MFT yn storio pob ffeil ar ddisg gan ddefnyddio FIPS 140-2 AES 256-bit dyls. Mae gan bob ffeil allwedd amgryptio unigryw, sydd hefyd wedi'i hamgryptio.
- Mae MFT yn cofnodi pob digwyddiad mewngofnodi ac allgofnodi, newidiadau i hawliau, ychwanegiadau defnyddiwr newydd a gweithredoedd eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch y system. Mae pob cofnod log yn cael ei gadwyno mewn cryptograffeg gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n golygu bod unrhyw ymyrryd â chofnodion archwilio yn amlwg.
- Mae MFT yn defnyddio dulliau cryptograffeg i wirio nad oes neb wedi ymyrryd â ffeiliau.
- Cofiwch mai adnodd ar gyfer trosglwyddo ffeiliau yn unig yw MFT. Er mwyn atal cwmpo data, bydd ffeiliau'n cael eu dileu'n awtomatig ar ôl cyfnod penodol.
- Dim ond ffeiliau sydd wedi'u hamgryptio ar ffurf ffeiliau zip (.7z neu .zip) y dylid eu llwytho i fyny i MFT.